

Cam Gweithredu	Beth wnaethon ni?	Beth fyddwn ni'n ei wneud yn y dyfodol?
<p><b>Rhoi gofal a chymorth</b></p> <p>Dywedon ni y bydden ni'n bodloni anghenion ein trigolion mwy agored i niwed ac yn sicrhau bod gan bobl fynediad i wybodaeth, gofal a chymorth.</p>	<p>&gt; Gwnaethon ni sefydlu hyb cymunedol hygyrch yn Llanilltud Fawr i bobl hŷn. Mae hyn wedi eu helpu i deimlo'n hapusach, yn iachach ac yn llai unig drwy eu cysylltu â'u cymuned, gwasanaethau cymorth a gweithgareddau cymdeithasol.</p> <p>&gt; Cofrestrodd 5 asiantaeth gofal ychwanegol i'r cynllun 'Eich Dewis', gan gynnig mwy o ddewis o gymorth lles ac annibyniaeth i drigolion sy'n agored i niwed. Gwnaethon ni hefyd gytuno ar gontract cartref gofal rhanbarthol gyda phartneriaid a'r Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau i oedolion sy'n agored i niwed.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni roi Rhaglen Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Gynnar ar waith ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn wedi helpu i leihau nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf 48.25%.</p> <p>&gt; Bodlonodd 97% o'n sefydliadau bwyd safonau hylendid bwyd. Gwnaethon ni lwyddo i erlyn 7 safle bwyd a oedd yn torri safonau bwyd. Cafodd 93% o'r toriadau risg uchel eu cywiro.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni ymchwilio i 428 o achosion o glefydau trosglwyddadwy a'u rheoli mewn cartrefi gofal, ysgolion, meithrinfeydd, a sefydliadau gofal cartref. Covid-19 oedd 368 o'r achosion hyn.</p> <p>&gt; Manteisiodd 1,400 o bobl ifanc agored i niwed ar brosiectau gwaith ieuencid, ymyriadau, cymorth lles, mentora lles a gwasanaethau atal digartrefedd yn ddigidol ac wyneb yn wyneb.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni gynnal mwy o sesiynau addysg a lles y tu allan i'r ysgol i blant yn y Barri - mae hyn hefyd yn cael ei gyflwyno ym Mhenarth a Gorllewin y Fro. Gwnaethon ni hefyd gynyddu cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned ar gyfer plant,</p>	<p>Yn 2023-24, byddwn ni'n datblygu gwasanaethau i gefnogi pobl, byddwn ni'n fwy ystyriol o bobl hŷn ac yn fwy cydlynol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda phlant a'u teuluoedd ac yn ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuencid gan ganolbwyntio mwy ar les disgyblion.</p>

	<p>pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed a gwnaethon ni dreialu gwefan gwnsela yn yr ysgol ar y cyd â Barnardo's.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni recriwtio 13 o ofalwyr maeth newydd, 27 o ofalwyr sy'n berthnasau a 2 ofalwr maeth rhiant a phlentyn.</p> <p>&gt; Rydyn ni wedi bodloni ein haddewidion i ailsefydlu ffoaduriaid o Syria ac Affganistan yn rhan o fenter Ailsefydlu'r DU. Mae 73 o bobl/teuluoedd wedi cael cymorth i ailsefydlu ym Mro Morgannwg.</p>	
<p><b>Gwella ein Seilwaith</b></p> <p>Dywedon ni y bydden ni'n gwella'r seilwaith ledled y Fro ac yn buddsoddi yn ein hysgolion a'n cymunedau.</p>	<p>&gt; Mae £18,738,499 wedi'i ymrwymo i gynlluniau ledled y Fro, gyda £5,576,157 yn cael ei wario ar gynlluniau'n cynnwys trafndiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd a gwelliannau celf cyhoeddus.</p> <p>&gt; Darparwyd 189 o unedau tai fforddiadwy a chwson ni hefyd £469,874 ychwanegol i helpu i gynyddu'r cyflenwad o Dai Fforddiadwy yn y Fro.</p> <p>&gt; Rhaglen fuddsoddi yng nghanol ein trefi i gyd, gan gynnwys cynlluniau plannu, trwyddedau caffi newydd, dulliau cyfrif nifer ymwelwyr a digwyddiadau rhwydweithio busnes wedi'u trefnu.</p> <p>&gt; Gweithiwyd gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd i sicrhau arian i gefnogi twf masnachol o fewn ffin yr Ardal Fenter gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu safle coleg newydd yn y maes awyr.</p> <p>&gt; Rydyn ni wedi cyfnewid contractau â Choleg Caerdydd a'r Fro ar ddatblygu coleg yng Nglannau'r Barri, yn datblygu gwaith dylunio manwl ar y cynllun ac wedi dechrau ar waith a fydd yn trawsnewid y BSC2 yn y Barri yn swyddfa a chyfleuster hamdden.</p> <p>&gt; Gwell adeiladau ysgol fel Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Ysgol Gynradd Trwyn y De, Canolfan Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol Whitmore ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre.</p>	<p>Yn 2023-34, byddwn ni'n adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, yn adeiladu cartrefi cyngor newydd, yn buddsoddi yn ein hysgolion ac yn cefnogi canol ein trefi, ac yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd byddwn ni'n canolbwyntio ar gynllunio, trafndiaeth a datblygu economaidd ledled De-ddwyrain Cymru.</p>

<p><b>Gweithredu Prosiect Sero</b></p> <p>Dywedon ni y bydden ni'n gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ymateb i'r argyfwng natur a gofyn i'r gymuned am yr hyn sydd angen ei newid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>&gt; Gwnaethon ni brynu 12 car trydan i'r gronfa geir yn rhan o'n strategaeth amnewid fflyd - bydd hyn yn lleihau allyriadau gan 26,304kg bob blwyddyn. Rydyn ni wedi gosod 18 pwynt gwefru cerbydau trydan newydd mewn meysydd parcio ac ar strydoedd.</li> <li>&gt; Gwnaethon ni ehangu'r cynllun tacsis trydan a lanswyd ym mis Rhagfyr 2021 ac rydyn ni hefyd wedi mabwysiadu polisi sy'n gofyn am osod pwyntiau gwefru trydan mewn datblygiadau newydd.</li> <li>&gt; Mae rhaglen adeiladu Tai'r Cyngor wedi ymgorffori technolegau gwyrdd newydd yng nghynlluniau tai newydd sy'n cael eu datblygu ar hen safle Clinig Iechyd Colcot, Hayeswood Road, yn rhan o Gam 2 Clos Holm View ac ar St Cyres Road. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar rai o'r cynlluniau hyn.</li> <li>&gt; Mae 100% o oleuadau ein prif strydoedd wedi'u newid i LED - bron i 15,000 o lusernau.</li> <li>&gt; Rydyn ni wedi datblygu ein Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ddrafft a byddwn ni'n dechrau ymgysylltu â'r cyhoedd i'w llunio.</li> <li>&gt; Gwnaethon ni sicrhau arian ar gyfer 6 chynllun Teithio Llesol ychwanegol i gefnogi newid mewn ymddygiad, gan gynnwys ehangu seilwaith beiciau OVO, gosod pypiau/gorsafoedd atgyweirio beiciau ledled y Fro.</li> <li>&gt; Mae 18 o ysgolion wedi cofrestru i brosiect WOW Living Streets sy'n annog plant i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol.</li> <li>&gt; Sicrhawyd arian i ddiogelu dyfodol gwasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks.</li> <li>&gt; Yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o'r gwaith o brynu gorsaf bŵer segur Aberddawan. Bydd cynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy a gwyrdd.</li> </ul>	<p>Yn 2023-24, byddwn ni'n parhau i hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gymunedol a chyhoeddus ac i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Byddwn ni'n datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ac yn cyflwyno ein cynllun bioamrywiaeth. Byddwn ni'n buddsoddi mewn gwaith rheoli gwastraff a'n hadeiladau gan eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon, a byddwn ni'n adolygu ein harferion caffael.</p>
---	--	--

<p><b>Trawsnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio</b></p> <p>Dywedon ni y bydden ni'n newid y ffordd rydyn ni'n gweithio ac yn bwrw ymlaen â phrosiectau arloesol ar draws yr holl wasanaethau, gan wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.</p>	<p>&gt; Drwy ein Cronfa Cymunedau Cryf, gwnaethon ni gefnogi 26 o sefydliadau/grwpiau a arweinir gan gymunedau'n ariannol gyda phrosiectau sydd wedi bod o fudd i'r cymunedau a chyfrannu tuag at ein Hamcanion Lles. Mae 22 o wardiau wedi elwa o £1.127m. Mae buddion cymunedol yn cynnwys: Benthylg Symudol yn y Fro; adnewyddu neuadd sgowntiaid y Rhws, hysbysebu ar gyfer grŵp cymorth Metalidads, prosiect gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd gyda Chyngor Cymuned Llanbedr-y-fro a gwelliant i gyfarpar chwarae wrth gofeb Brenin Siôr V.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni gwblhau cam cyntaf y broses o drosglwyddo safleoedd chwaraeon awyr agored yn llwyddiannus - mae pob clwb bowllo bellach yn gweithredu'n annibynnol. Rydyn ni'n symud ymlaen â'r cam nesaf o drosglwyddiadau sy'n cynnwys clybiau rygbi.</p> <p>&gt; Adolygwyd y defnydd o'n swyddfeydd yn y dyfodol gyda'r prosiect Eich Lle.</p> <p>&gt; Rydyn ni wedi buddsoddi mewn llwyfannau digidol i wella ein cyrhaeddiad ac ymgysylltu â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, dysgwyr a phartneriaid.</p> <p>&gt; Rydyn ni wedi datblygu cronfa ddata ymgysylltu â'r cyhoedd a chalendr treigl o weithgareddau ac wedi mabwysiadu porthol 'Cyfranogiad yn y Fro' newydd ar gyfer e-ddeisebau a gweithgareddau ymgysylltu.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni weithredu cam cyntaf prosiect i wella profiad cwsmeriaid yng Nghyswllt Un Fro. Mae hyn wedi ychwanegu ymarferoldeb newydd, fel defnyddio mapiau i nodi lleoliadau digwyddiadau yn well, y gallu i greu cyfrif fel y gall trigolion olrhain trafodion a gwell cyfathrebu dros e-bost.</p>	<p>Yn 2023-24, byddwn ni'n gweithio'n fwy gyda'r gymuned, i fod yn fwy cydlynol ac i wneud gwell defnydd o dechnoleg, ein hadeiladau a'n gweithlu i wella ein gwasanaethau.</p>
<p><b>Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw</b></p> <p>Dywedon ni y bydden ni'n helpu'r rheiny sy'n cael trafferth gyda</p>	<p>&gt; Mae 130 o ystafelloedd wedi'u sicrhau fel llety brys i bobl ddigartref, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi cleientiaid i symud yn eu blaen i lety mwy parhaol.</p> <p>&gt; Rydyn ni hefyd wedi darparu 11 uned llety brys ar ein hamwynder ar Court Road gydag ail gynllun ar y gweill a fydd yn darparu llety cymorth ar gyfer</p>	<p>Yn 2023-24, byddwn ni'n gweithio i leihau digartrefedd ac yn mynd i'r afael â thlodi bwyd gan ddarparu budd-daliadau, gwasanaethau cyflogaeth, cyngor ariannol a chymorth i'r rheiny</p>

<p>chostau byw ac sy'n cael trafferthion ariannol, problemau gyda'u tai neu anhawster wrth gael mynediad i gyflogaeth addas ac y bydden ni'n creu mwy o gyfleoedd i chwarae a chwaraeon.</p>	<p>anghenion cymhleth i'r cleientiaid mwyaf agored i niwed sydd mewn llety gwely a brechwast symud i mewn iddo nes iddynt gaffael y sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol.</p> <p>&gt; Mae 930 o bobl wedi cael llety gwely a brechwast dros y ddwy flynedd ddiwethaf.</p> <p>&gt; Defnyddiodd 771 o drigolion Siop Un Stop y Cyngor, gan wella eu sefyllfa dai, eu sefyllfa economaidd ac ariannol a'u hiechyd a'u lles personol.</p> <p>&gt; Sefydlwyd siop wybodaeth un stop drws nesaf i bod Bwyd Penarth gan gynnig cyngor ar dai, dyled, arian a budd-daliadau, addysg a sgiliau ac offer chwarae am ddim.</p> <p>&gt; Cafodd 329 o denantiaethau eu cynnal 6 mis ar ôl cael cymorth/cyngor ariannol, gan ddangos bod help gyda gwneud y mwyaf o incwm, hawlio'r budd-daliadau cywir a rheoli arian yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.</p> <p>&gt; Sefydlwyd grŵp Argyfwng Costau Byw i gefnogi trigolion gydag effeithiau diwygio lles a chostau byw.</p> <p>&gt; Cefnogwyd trigolion yn profi ansicrwydd bwyd tra'n lleihau gwastraff bwyd drwy gynlluniau ledled y Fro, fel Pod Bwyd Penarth, Mynediad at Fwyd Llanilltud Fawr - Rhannu Bwyd CF61, y Big Bwcs Bwyd yn y Barri, fan Cadfeld ac Ysgol y Ddraig.</p> <p>&gt; Mae rhaglen Cyflogaeth a Sgiliau Cyfle'n Codi wedi cefnogi 140 o drigolion drwy sioeau cyflogadwyedd y Fro, 60 o drigolion trwy ein rhaglen hyfforddiant cyn cyflogaeth a 30 o drigolion drwy ein gwrsyll cyflogadwyedd preswyl.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni wella rhagolygon cyflogaeth drwy greu 7x6 wythnos o leoliadau gwaith yn y Cyngor, gan sicrhau gwerth 369 wythnos o hyfforddiant drwy ein rhaglen datblygu tai gan helpu 110 o drigolion i gael gwaith, a helpu</p>	<p>sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ag effeithiau'r argyfwng costau byw.</p>
--	--	---

	<p>961 o drigolion eraill i ennill cymwysterau galwedigaethol achrededig.</p> <p>&gt; Cynyddwyd nifer y bobl sy'n manteisio ar gyfleoedd chwarae a chwaraeon, gan dargedu meysydd cyfranogiad isel drwy brosiectau fel Addysg Actif y Tu Hwnt i'r Ysgol, Haf o Hwyl/Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru, 'Active Girls on the Move', Iach Gartref, Teuluoedd Actif Gyda'i Gilydd a hefyd pobl hŷn 60+.</p> <p>&gt; Cymerodd dros 74,500 o bobl ifanc ran mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy gynlluniau fel y Rhaglen Pobl Ifanc Actif. Hefyd cyflawnodd pobl ifanc 2206 o oriau o hyfforddiant a 2183 o oriau o wirfoddoli.</p> <p>&gt; Cefnogwyd 300 o gyn-filwyr gyda materion fel digartrefedd, dyled, budd-daliadau, iechyd meddwl a lles. Sicrhawyd £19K mewn arian grant sy'n cefnogi mentrau cynhwysiant digidol ar gyfer cyn-filwyr.</p>	
<p><b>Cynnwys ein cymunedau</b></p> <p>Dywedon ni y bydden ni'n sicrhau bod gan bobl lais cryfach a'u bod yn gallu dylanwadu ar wasanaethau a llunio gwasanaethau a gweithgareddau yn y Fro.</p>	<p>&gt; Mae trigolion wedi helpu i lunio manau celf mwy cynaliadwy a chynhwysol fel: Gofod Gwneud yn llyfrgelloedd Penarth a'r Barri; mwy o arddangosfeydd digidol a gweithgareddau digidol; rhaglen o ddigwyddiadau celf masnachol a chymunedol ym Mhafiliwn Penarth gan gynnwys sinema.</p> <p>&gt; Mae defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid wedi llywio Strategaeth Eiriolaeth newydd a'r broses o ail-gomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Ranbarthol ar gyfer oedolion a fydd yn helpu i sicrhau yr ystyrir eu buddiannau gorau.</p> <p>&gt; Gwnaethon ni fabwysiadu Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid a Phrydleswyr newydd a gyd-gynhyrchwyd gyda thenantiaid a phrydleswyr. Mae hyn hefyd wedi newid sut rydyn ni'n cyfathrebu â thenantiaid, gan gyflwyno cylchlythyr, taflenni a grŵp newydd i fonitro ansawdd gwasanaeth.</p> <p>&gt; Mae mwy o denantiaid wedi'u hyfforddi i fod yn Hyrwyddwyr Digidol, gan roi hyfforddiant a chymorth TGCh i drigolion eraill i ddefnyddio mwy o wasanaethau ar-lein.</p>	<p>Yn 2023-24, byddwn ni'n parhau i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol ar draws yr holl wasanaethau, gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a chynyddu cyfranogiad pobl ifanc a chyfranogiad pawb nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.</p>

	<p>&gt; Helpon ni gymunedau yn Ystâd St Paul a St Luke, Penarth i wneud y lle yn lanach, yn wyrddach, yn iachach ac yn fwy cysylltiedig yn rhan o'r prosiect 'Llechen Lân'. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i ddatblygu pod bwyd, ardal chwarae i blant, gardd gymunedol a thŷ gwydr, sesiynau casglu sbwriel a chanolfan wybodaeth i gefnogi'r gymuned.</p> <p>&gt; Sicrhawyd bod trigolion ynghlwm wrth brosiectau gwella'r amgylchedd lleol fel ardal chwarae St. David's Crescent, Pafiliwn Belle Vue a chynllun Celf Cyhoeddus Lloches Hanesyddol Penarth.</p> <p>&gt; Ffocws newydd ar gynnwys llais pobl ifanc ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor a chryfhau'r bartneriaeth rhwng pobl ifanc a'r Cyngor wrth lunio ein blaenoriaethau adfer a datblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.</p>	
--	--	--